

Y Corff Llywodraethol - Cipolwg

Cyfarfod y Corff Llywodraethol 9-10 Medi 2026

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r holl eitemau ar agenda'r Corff Llywodraethol y gwnaed penderfyniadau arnynt. Mae ffrwd byw lawn o gyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Medi ar gael ar [sianel YouTube yr Eglwys yng Nghymru yma.](#)

■ Adroddiad Cyffredinol y Pwyllgor Sefydlog

Penderfyniadau	Pwy sy'n cael ei effeithio?
Diwygiwyd Polisi Diogelu'r Dalaith. • Gwnaed hyn er mwyn ailadrodd bod gan bawb gyfrifoldeb diogelu a bod yn rhaid i glerigion, gweithwyr a gwirfoddolwyr gydymffurfio â'r Polisi, y gweithdrefnau a'r canllawiau. • Y newidiadau i'r polisi: ○ cyflwyno ymagwedd seiliedig ar gydymffurfiaeth tuag at atebolrwydd. ○ cryfhau'r gofynion i bob rhan o'r Eglwys fabwysiadu, hyrwyddo a chyhoeddi'r Polisi. ○ adnabod oedolion a allai fod yn agored i niwed yng nghyd-destun yr Eglwys, gan gynnwys trwy gamdriniaeth ysbrydol. ○ egluro rheoli risg cymesur ar gyfer pobl a allai fod yn peri risg o niwed. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi Diogelu ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru yma.	▶ Pawb. Mae Polisi Diogelu'r Dalaith yn berthnasol yn gyffredinol ar draws yr Eglwys yng Nghymru. ▶ Dylai'r rhai sydd â chyfrifoldebau diogelu uniongyrchol yn arbennig gymryd sylw gofalus o'r newidiadau i'r polisi.

1. Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog ar lywodraethu a materion cyfreithiol

Penderfyniadau	Pwy sy'n cael ei effeithio?
Mae gwiriadau diogelu ychwanegol bellach yn ofynnol yn gyfansoddiadol ar gyfer esgobion ac uwch glerigion esgobaethol eraill. Rhaid hefyd hysbysebu'n gyhoeddus swyddi gwag ar gyfer esgobion cynorthwyol, deoniaid eglwysi cadeiriol, archddiaconiaid a chanoniaid cyflogedig neu brebendariaid.	► Y rhai sy'n gyfrifol am benodiadau uwch glerigion, gan gynnwys Colegau Etholiadol, esgobion esgobaethol a Phanel Diogelu'r Dalaith.
Diwygiwyd y gofynion ymarferol ar gyfer y Colegau Etholiadol esgobol. Mae'r cyfnod ar gyfer cynnal Coleg Etholiadol ar ôl i Esgobaeth ddod yn wag wedi ei ymestyn i bedwar mis, gydag amserlenni cysylltiedig wedi'u hymestyn ar gyfer Coleg sydd wedi'i ailymgynnull ac ar gyfer cyfeirio swydd wag heb ei llenwi i Fainc yr Esgobion. Gall y Pwyllgor Sefydlog bellach ddewis lleoliad amgen ar gyfer cynnal Coleg Etholiadol archesgobol. Llandrindod yw'r lleoliad a ffefrir o hyd, ond gall y Pwyllgor Sefydlog ddewis lleoliad arall pan fo amgylchiadau ymarferol yn golygu bod hynny'n angenrheidiol.	► Aelodau'r Coleg Etholiadol. ► Mainc yr Esgobion. ► Y rhai sy'n gweinyddu etholiadau esgobol.
Newidiwyd y dyddiad cau a'r trefniadau gohirio ar gyfer cynigion aelodau preifat. Mae'r dyddiad cau arferol ar gyfer cyflwyno cynnig wedi symud o bum i ddeuddeg wythnos cyn cyfarfod y Corff Llywodraethol (oni bai bod y Llywydd yn rhoi caniatâd arbennig ar gyfer cynnig brys). Gyda chaniatâd y Pwyllgor Sefydlog, gall y Llywydd ohirio cynnig i'r cyfarfod cyffredin nesaf, lle nad oes digon o amser ar yr agenda i'w ystyried yn briodol.	► Aelodau'r Corff Llywodraethol sy'n dymuno cyflwyno cynigion aelodau preifat.
Cynyddwyd nifer yr aelodau cymwys cyfreithiol o'r Tribiwnlys Disgyblu. Bydd nifer yr aelodau cymwys cyfreithiol o'r Tribiwnlys Disgyblu yn cynyddu o dri i bedwar, gan gynyddu aelodaeth gyffredinol y Tribiwnlys o 17 i 18.	► Y Tribiwnlys Disgyblu, ei aelodau cymwys cyfreithiol a phartïon i achosion disgyblu.

Cod Ymddygiad ar gyfer clerigion a gweinidogion lleyg trwyddedig

Penderfyniadau	Pwy sy'n cael ei effeithio?
Ychwanegwyd ail bennod (ar uniondeb ariannol) i'r Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd yn y Llawlyfr Clerigion. Mae'r bennod hon yn gosod safonau ar gyfer cyllid personol ac eglwysig, gan gynnwys rheoli gwrthdaro buddiannau, cynnal ffiniau ariannol clir a sicrhau atebolrwydd priodol am arian yr eglwys.	▶ Clerigion a gweinidogion lleyg trwyddedig. ▶ Cyrff eglwysig sydd â chyfrifoldebau ariannol neu ymddiriedolwyr.
Cryfhawyd y gofynion rheoli ariannol a chadw cofnodion. Yn ôl y Cod, mae'n ofynnol cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, derbynebaw ar gyfer treuliau, trin arian yr eglwys yn ddiogel ac yn brydlon, derbyn hyfforddiant addas, cofnodi penderfyniadau ymddiriedolwyr, adrodd am amheuaeth o gamymddwyn a chael o leiaf ddau berson i awdurdodi trosglwyddiadau sylweddol.	▶ Clerigion a gweinidogion lleyg trwyddedig sy'n trin arian neu'n goruchwyllo cyllid yr eglwys. ▶ Trysoryddion, gweithwyr eglwysig a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â rheoli ariannol.
Bellach, rhaid datgan rhoddion sy'n werth £200+ gan y rhai sydd dan ofal bugeiliol gweinidog. Rhaid ystyried yn ofalus rhoddion ariannol ac anariannol, gan gynnwys buddion personol fel llety am ddim, a gynigir o fewn perthynas fugeiliol. Rhaid datgelu rhoddion dros £200 i'r esgob, neu gan esgob i Gofrestrydd yr Archesgob.	▶ Clerigion a gweinidogion lleyg trwyddedig sy'n derbyn rhoddion fel rhan o berthynas fugeiliol. ▶ Esgobion a Chofrestrydd yr Archesgob sy'n derbyn datganiadau.
Mae'r canllawiau i glerigion a'r telerau gwasanaeth cysylltiedig bellach yn cyd-fynd â'r Cod newydd. Diwygiwyd y Canllawiau Gweinidogol Proffesiynol i leihau'r trothwy datganiadau rhodd o £500 i £200 fel bod y ddwy ddogfen yn gyson. Diweddarwyd y Polisi a Gweithdrefn Ddisgyblu Clerigion a'r Datganiad o Delerau Gwasanaeth hefyd i gyfeirio'n benodol at y Cod Ymddygiad.	▶ Pob clerig. ▶ Y rhai sy'n cynghori neu'n gweinyddu ymddygiad a disgyblaeth clerigion.

Fframio model cyllido newydd ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru

Yn ystod cyfarfod y Corff Llywodraethol ar 9-10 Medi 2026, ystyriodd aelodau'r Corff Llywodraethol bapur trafod a gynhyrchwyd mewn ymateb i gynnig aelodau preifat a basiwyd gan y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2025. Roedd y cynnig yn gofyn am ddadansoddiad pellach o sut y mae Corff y Cynrychiolwyr yn cefnogi ardaloedd gweinidogaeth/cenhadaeth ledled yr Eglwys yng Nghymru. Yn dilyn blwyddyn o ddadansoddi ariannol, ymgynghori ac ymgysylltu ag esgobaethau, a ysgogwyd gan y cynnig yn 2025, cyflwynodd y papur gyfres o gwestiynau strategol a ystyriwyd gan y Corff Llywodraethol er mwyn helpu i lunio datblygiad model cyllido yn y dyfodol.

Ni chafwyd barn sefydlog ar y cynigion manwl fel rhan o'r drafodaeth, ond roedd cefnogaeth eang i fodel cyllido sy'n cael ei arwain gan genhadaeth, sy'n deg, yn atebol ac yn ariannol gynaliadwy, ac sy'n darparu manteision clir i Ardaloedd Gweinidogaeth a Chenhadaeth. Galwodd yr aelodau am fwy o fyfyrwyr diwinyddol a strategol, tystiolaeth gryfach, ymgynghori ehangach a mesurau effaith mwy eglur cyn i newidiadau sylweddol gael eu gwneud. Gofynnwyd am waith pellach hefyd ar ddyfodol Cronfa Twf yr Eglwys, trefniadau pontio teg, y cydbwysedd rhwng cyllid cyffredinol a chyllid wedi'i dargedu a mwy o gydweithredu a rhannu adnoddau rhwng esgobaethau.